BookTrust
Inspire a love of reading

# Darllen gyda'ch Plentyn

4-6 oed



booktrust.org.uk

# Darllen gyda'ch Plentyn

Gall darllen gyda'ch plentyn olygu rhannu llyfrau, storïau, rhigymau neu unrhyw ysgrifennu arall.

Gallwch:

- Ddarllen llyfrau gyda'ch gilydd.
- Dweud stori wrth eich gilydd.
- Sgwrsio am bethau rydych wedi eu darllen.
- Siarad am luniau mewn llyfrau.
- Rhannu storïau hyd yn oed os nad oes gennych lyfr o'ch blaen. Beth am ailddweud eich hoff storïau?





# Pam darllen?

**Mae rhannu llyfrau a storïau gyda'ch plentyn yn hwyl!**

Mae'n ffordd dda i ffurfio atgofion ac eiliadau arbennig gyda'ch plentyn, a gall yn hawdd ddod yn hoff ran o'r dydd.

Mae hefyd yn helpu plant i:

- Ddeall y byd o'u cwmpas.
- Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.
- Gwneud yn well yn yr ysgol mewn pynciau fel Cymraeg, Saesneg, mathemateg a phynciau eraill.
- Adeiladu hyder wrth gyfathrebu.
- Cryfhau'r cwlwm rhwng eich plentyn a chi a gydag aelodau eraill o'r teulu.



# Beth ddylen ni ddarllen?

**Gallwch ddarllen unrhyw beth.**

Rhowch gynnig ar amrywiaeth o lyfrau lluniau, comics, cerddi a rhigymau.

Gallwch ddarllen yr un llyfr drosodd a throsodd. Mae llyfrau cyfarwydd yn gysur ac yn adeiladu hyder.

Gallwch ddewis llyfrau newydd. Dewiswch rywbeth y bydd y ddau/ddwy ohonoch yn ei fwynhau.

Does dim rhaid i lyfrau fod yn llawn geiriau. Mae llyfrau lluniau'n berffaith ar gyfer rhannu a siarad gyda'ch plentyn. Gallwch ddefnyddio lluniau i archwilio storïau a helpu'ch plentyn i ddeall llyfrau sy'n fwy anodd.

- Ewch i'ch llyfrgell leol i weld beth mae'ch plentyn yn ei hoffi.
- Gofynnwch i athrawon, llyfrgellwyr a rhieni eraill i argymell llyfrau.
- Ewch i'r chwiliwr llyfrau ar wefan y Book Trust i gael rhai syniadau: **booktrust.org.uk/bookfinder**
- Mae apiau dweud stori a storïau i'w cael ar lechi a chyfrifiaduron hefyd. Ond cofiwch aros gyda'ch plentyn i fwynhau rhannu'r stori hefyd.





# Pryd dylen ni ddarllen?

**Rhannwch stori pryd bynnag y bydd amser i wenud hynny.**

Mae darllen gyda'ch plentyn am ddim ond deg munud y dydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr.

- Ewch â llyfrau gyda chi er mwyn i chi fod â stori i'w rhannu bob amser. Gallwch ddarllen ar y trên neu'r bws neu hyd yn oed wrth aros gyda'ch gilydd mewn ciw.

- Pan fyddwch chi allan yn yr awyr iach, treuliwch amser i sylwi beth sy'n digwydd o'ch cwmpas. Dyfeisiwch storïau am beth rydych chi'n ei weld gyda'ch plentyn.

- Mae amser gwely'n amser perffaith i ddarllen gyda'ch gilydd. Mae'n helpu i greu trefn a gall wneud i'ch plentyn edrych ymlaen at fynd i'r gwely. Mae'n amser arbennig i riant a phlentyn ei rannu.



# Sut?

**Ffeindiwch le tawel heb ddim i dynnu sylw.**

Trowch bob teledu, radio, cyfrifiadur neu lechen i ffwrdd. Treuliwch amser yn edrych ar bob tudalen.

Does dim rhaid i chi wneud yn siŵr fod eich plentyn yn cael pob gair yn gywir. Mae'n iawn i'r ddau/ddwy ohonoch wneud camgymeriadau! Gadewch i'ch plentyn siarad am y lluniau. Mae hyn yn ei helpu i edrych am ystyr a meddwl am beth mae'n ei weld yn digwydd ar y dudalen.

Cofiwch wenu. Os ydych chi'n teimlo'n hapus i wneud, ewch ati i dynnu ystumiau, gwneud synau anifeiliaid a rhoi lleisiau arbennig i'r cymeriadau - mae hyn bob amser yn gwneud i blant chwerthin!

**Gofynnwch gwestiynau wrth i chi ddarllen gyda'ch gilydd.**
Er enghraifft:
- Beth wyt ti'n ei weld ar y dudalen yma?
- Sut wyt ti'n meddwl mae'r cymeriadau'n teimlo?
- Beth wyt ti'n feddwl sy'n mynd i ddigwydd nesa?

Ar ôl gorffen, siaradwch am sut mae'ch plentyn yn teimlo am y llyfr:
- Beth oedd hi/e'n ei hoffi?
- Beth nad oedd hi/e'n hoffi?
- Beth oedd hi/e'n gallu gofio am beth ddigwyddodd?
- Pwy oedd ei hoff gymeriad? Pam?
- Cysylltwch y stori gyda phrofiad eich plentyn. Ydy hi/e'n gallu cofio gwneud rhywbeth tebyg?

**Y peth pwysicaf yw cael hwyl!**





# Beth os nad Saesneg yw fy iaith gyntaf?

**Does dim rhaid i chi ddarllen llyfrau yn Saesneg yn unig.**

Rhannwch lyfrau, storïau a rhigymau yn eich mamiaith!

- Efallai y bydd eich plentyn yn defnyddio geiriau Saesneg – gallwch ateb neu ailadrodd beth mae wedi'i ddweud yn eich iaith eich hun. Mae plant wrth eu bodd gyda'ch llais chi ac yn gallu ymdopi gyda dwy iaith.

- Mae rhannu stori'n fwy na dim ond dysgu darllen – mae'n golygu cwtsio a threulio amser gyda'ch gilydd.






# Beth os dwi'n defnyddio llechen neu gyfrifiadur?

**Mae llyfrau digidol ac apiau storïau yn llawer o hwyl!**

Pan fyddwch chi'n darllen gan ddefnyddio llechen neu gyfrifiadur, cofiwch aros gyda'ch plentyn. Siaradwch am beth mae'ch plentyn yn ei wneud, a'i helpu i ddefnyddio'r ddyfais.

- Mae'n syniad da i osod y ddyfais ar y gosodiad Awyren cyn ei roi i'ch plentyn er mwyn osgoi unrhyw gostau neu fynediad i'r we annisgwyl.

- Gofynnwch yr un cwestiynau am y stori ag y byddech gyda llyfr print.






# Pwy?

**Byddwch yn batrwm darllen!**

Os bydd eich plentyn yn eich gweld chi'n darllen, bydd eisiau darllen hefyd.

- Dylech gynnwys eich teulu yn yr hyn rydych yn ei ddarllen - siaradwch am beth rydych chi wedi'i ddarllen a beth roeddech chi'n ei hoffi am y stori.

- Anogwch ffrindiau a theulu i rannu llyfrau gyda'ch plentyn. Po fwyaf o bobl y bydd eich plentyn yn eu gweld yn darllen, y mwyaf y bydd am ddarllen ei hun hefyd.





# Beth nesaf?

Ewch i **booktrust.org.uk** i ddysgu mwy am yr hud o rannu storïau, llyfrau a rhigymau gyda'ch plentyn.

Byddwch yn gweld:
- Mwy o awgrymiadau.
- Awgrymiadau ac adolygiadau llyfrau.
- Gemau rhyngweithiol.
- Storïau y gallwch wrando arnynt neu eu darllen.
- Gwybodaeth am ein rhaglenni.

**Mwynhewch y darllen!**

